**RHYBUDD O WNEUD**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(B5101 Ffordd Llanfynydd, Ffordd Ddienw 1 a Ffordd Ddienw 2, Llanfynydd) (Terfyn Cyflymder 20mya a 30mya) 2024**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi rhybudd trwy hyn bod wedi gwneud wedi gwneud Gorchymyn ar 20 Chwefror 2024 drwy arfer ei bwerau dan dan Adran 84 a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

a) Gosod terfyn cyflymder o 20mya yn y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen 1 yr hysbysiad hwn.

b) Gosod terfyn cyflymder o 30mya yn y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen 2 yr hysbysiad hwn.

c) Bydd y Gorchymyn, yn dirymu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffordd Llanfynydd) (Terfyn Cyflymder 20mya) 2023 a Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (B5101 Llanfynydd), (Terfyn Cyflymder 30mya) 2016 yn llwyr.

**ATODLEN 1**
**Terfyn Cyflymder 20mya**

**B5101 Ffordd Llanfynydd, Llanfynydd**, o bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r Ffordd Ddienw 2, a leolir i'r gorllewin o'r B5101 Ffordd Llanfynydd, am bellter o 34 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.

**Ffordd Ddienw 1, Llanfynydd**, **a leolir i'r dwyrain o'r B5101 Ffordd Llanfynydd:** O'i chyffordd gyda'r B5101 Ffordd Llanfynydd ar bwynt rhwng eiddo a elwir yn Archway House a Thŷ Capel am bellter o 33 metr i gyfeiriad y dwyrain.

**Ffordd Ddienw 2, Llanfynydd**, **a leolir i'r gorllewin o'r B5101 Ffordd Llanfynydd:** O'i chyffordd gyda'r B5101 Ffordd Llanfynydd ar bwynt rhwng eiddo a elwir yn Llys Awel a New Millward House am bellter o 160 metr i gyfeiriad y gorllewin.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 30mya**

**B5101 Ffordd Llanfynydd:** o bwynt 24 metr i'r gogledd orllewin o'i chyffordd â'r Ffordd Ddienw 1, a leolir i'r dwyrain o'r B5101 Llanfynydd, am bellter o 367 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.

Os ydych yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 20 Chwefror 2024, cynlluniau'n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau'r cyngor dros y Gorchymyn, i'w gweld yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell yr Wyddgrug, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1AP yn ystod oriau agor neu fe allwch eu gweld ar ein gwefan www.siryffint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NF. Dydd Gwener 23 Chwefror 2024